



At:

Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru
Canolfannau dysgu cofrestredig LCA/Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB)
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr
UCAS
UCM Cymru
Comisiynydd Plant Cymru

Awst 2018

Annwyl Gyfaill

CYNLLUNIAU'R LWFANS CYNHALIAETH ADDYSG (LCA) A GRANT DYSGU LLYWODRAETH CYMRU (ADDYSG BELLACH) (GDLIC (AB)) AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2018/19.

Mae'r hysbysiad gwybodaeth hwn yn darparu manylion cynlluniau'r LCA a'r GDLIC (AB) ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2018/19. Sicrhewch fod yr Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cael ei ddsbarthu i'r holl staff a chydweithwyr sy'n gweinyddu'r cynlluniau.

YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y LCA neu/ac am GDLIC (AB) neu'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch â'r Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru - e-bost : isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae fersiynau print mawr a Braille o'r ddogfen hon yn ogystal â fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais. Gellir lawrlwytho copi o'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn [Gymraeg](#) neu [Saesneg](#).



1. Cynlluniau'r LCA a'r GDLIC (AB) 2018/19

Mae'r dyfarniadau a'r trothwyon incwm ar gyfer cynlluniau'r LCA a'r GDLIC (AB) sy'n seiliedig ar brawf modd wedi cael eu cadw ar lefelau blwyddyn academaidd 2017/18. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr yn parhau i weinyddu'r ceisiadau, fel rhan o'r gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) y mae'n ei gynnal ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir cysylltu â gwasanaethau dwyieithog CMC i gwsmeriaid ar 0300 200 4050. Mae ffurflenni cais a chanllawiau ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 hefyd ar gael i'w lawrlwytho drwy wefan CMC. Caiff pecynnau cais eu dosbarthu i'r ysgolion a'r colegau hynny sy'n gweinyddu'r cynlluniau. Mae gwybodaeth am y cynlluniau ar gael drwy wefan CMC: <https://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/ab.aspx>.

Dileu trefniadau pontio ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd a ddechreuodd eu cyrsiau cyn 1 Medi 2015

Yn 2015 cyflwynodd y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr broses o wirio asesiadau incwm aelwyd yn electronig (VHI)¹. Dolen rhannu data yw hon rhwng y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr a CThEM i wirio incwm aelwyd, sy'n lleihau faint o dystiolaeth ar bapur a gyflwynir gyda chais. Cyflwynwyd trefniadau pontio, a oedd yn galluogi CMC i barhau i weinyddu myfyrwyr LCA a GDLIC (AB) sy'n dychwelyd ac a ddechreuodd eu cyrsiau cyn 1 Medi 2015. Ni fydd y trefniadau pontio (a nodir ar hyn o bryd o dan Ran 1, Cynllun LCA 17/18 a Rhan 5, Cynllun GDLIC (AB) 17/18) yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau 18/19 gan na fydd unrhyw fyfrwyr yn dychwelyd a ddechreuodd eu cyrsiau cyn mis Medi 2015.

Bydd trefniadau presennol y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr ar gyfer gwirio incwm aelwyd myfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n dychwelyd a ddechreuodd eu cyrsiau ar neu ar ôl 1 Medi 2015 yn parhau ym mlwyddyn academaidd 2018/19.

2. Rhai sy'n Gadael Gofal

Cynllun GDLIC (AB)

Ni fydd y rhai sy'n gadael gofal ac yn gwneud cais am gymorth GDLIC (AB) am y tro cyntaf ym mlwyddyn academaidd 2018/19, ac sy'n llai na 25 oed cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd, yn destun asesiad incwm aelwyd a byddant yn gymwys i gael uchafswm grantiau amser llawn neu ran-amser GDLIC (AB), ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf cymhwystra eraill. Ni fydd incwm partneriaid y rhai sy'n gadael gofal yn cael ei ystyried chwaith.

Bydd y newid hwn yn cysoni Cynllun GDLIC (AB) gyda'r cynnig cymorth i fyfrwyr ar gyfer addysg uwch (AU) i'r rhai sy'n gadael gofal ym mlwyddyn academaidd 2018/19. Mae hyn yn digwydd yn sgil yr adolygiad annibynnol cynhwysfawr a wnaed o gyllido AU a threfniadau cyllido myfyrwyr yng Nghymru (Adolygiad Diamond).

¹ <https://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/media/9312/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-02-2015-.pdf>

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 04/2018)

Ymdrinnir â'r rhai sy'n gadael gofal sydd yn 25 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y maent yn cael eu hasesu ar ei chyfer, fel myfyrwyr annibynnol at ddibenion GDLIC (AB). Bydd angen iddynt ddarparu manylion unrhyw incwm gweddilliol ac incwm partneriaid (os yw'n berthnasol) â'r cais a bydd yn destun asesiad incwm aelwyd CMC.

Bydd myfyrwyr GDLIC (AB) sy'n dychwelyd ac yn gadael gofal ac o dan neu dros 25 oed yn parhau i fod yn destun asesiadau profi modd CMC. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael gofal yn cael uchafswm y grant llawn amser neu ran-amser.

Cynllun LCA

Mae Cynllun LCA eisoes yn darparu categorïau ar gyfer unigolyn sy'n esempt ac nad yw'n destun asesiad incwm aelwyd i brofi modd. Mae categorïau'r LCA o unigolion esempt yn cynnwys unigolion sy'n byw dan ofal awdurdod lleol, gyda rhieni maeth neu sy'n unigolyn sy'n gadael gofal. Rydym wedi cynnwys dehongliad o un sy'n gadael gofal yn y Cynllun LCA ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-19, gan helpu i ddarparu eglurder ynghylch pwy fydd a phwy na fydd yn destun asesiad y Cynllun ar gyfer profi modd ariannol. Mae'r dehongliad yn debyg i'r un yng Nghynllun GDLIC (AB), er y dylid nodi bod y categorïau cymhwysra o ran oedran yn wahanol ar gyfer pob cynllun.

Bydd cynlluniau LCA a GDLIC (AB) yn dibynnu'n bennaf ar y diffiniad o rai sy'n gadael gofal a nodir ym mharagraff 104 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Os oes gan rai sy'n gadael gofal unrhyw gwestiynau ynghylch cymhwysra neu angen cymorth i gwblhau ffurflen gais mae croeso iddynt gysylltu â llinell gymorth gwasanaeth i gwsmeriaid CMC (<https://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk/ab/cyswllt.aspx>)

3. Categorïau Preswyllo

Person Diwladwriaeth

Mae categori person diwladwriaeth wedi cael ei ychwanegu i'r cynlluniau LCA a GDLIC (AB) ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Bydd angen i ymgeisydd cymwys fodloni'r meini prawf cymhwysra ar gyfer LCA neu GDLIC (AB). Yn ogystal, mae rhaid i'r ymgeisydd fod yn berson:

- â chanddo ganiatâd cyfredol oddi wrth Swyddfa Gartref y DU i aros fel person diwladwriaeth;
- sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd gydol yr amser ers iddo gael caniatâd i aros fel person diwladwriaeth.

Mae hyn yn cynnwys aelodau teulu person diwladwriaeth sydd â chaniatâd dilys i aros yn y DU. Mae'r categori newydd hwn wedi'i gynnwys yn y ffurflen gais ar gyfer LCA a GDLIC (AB) a'r nodiadau cyfarwyddyd. Mae categori person diwladwriaeth wedi'i gynnwys hefyd yn y rheoliadau cymorth statudol i fyfyrwyr addysg uwch perthnasol. Yn amodol ar gydsyniad Gweinidogion Cymru gwneir newid cyffelyb i'r Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) 2018/19.

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 04/2018)

Dileu categori gwladolion Syria (Rhaglen adsefydlu pobl agored i niwed o Syria (VPRS))

Bydd y categori presennol ar gyfer pobl agored i niwed o Syria a adsefydlwyd (VPR) yn cael ei ddileu o'r cynlluniau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19. Bydd personau VPR (ac aelodau eu teuluoedd) sy'n gwneud cais am gymorth ym mlwyddyn academiaidd 2018/19 yn cael eu cynnwys gan CMC ar y ffurflen gais yn y categori ffoaduriaid (ac aelodau eu teuluoedd) presennol, fel yn achos y categori ar gyfer ffoaduriaid a nodir o dan Ran 1 a Rhan 2 yr Atodlen yng nghynlluniau'r LCA a'r GDLIC (AB) ar gyfer 2018/19.

Person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros

Gwnaed diwygiad technegol o dan Ran 1 a Rhan 2 yr Atodlen yng nghynlluniau'r LCA a'r GDLIC (AB) ar gyfer 2018/19 felly, er mwyn egluro'r categorïau sy'n gymwys ar gyfer personau (neu aelodau eu teuluoedd) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros, gan gynnwys y rhai ar sail bywyd preifat neu rai sydd y tu allan i reolau mewnfudo o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Diwygiwyd y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr perthnasol yn yr un modd, ac yn ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidogion Cymru bydd newid cyffelyb yn cael ei wneud i Gynllun y Gronfa Ariannol wrth Gefn (AB) ar gyfer 2018/19.

Dyddiadau terfyn mewnfudo Swyddfa Gartref y DU

Mae CMC wedi cryfhau ei wiriadau cymhwysra i gadarnhau cenedligrwydd a hawliau preswyllo ar gyfer cynlluniau'r LCA a GDLIC (AB). Mae CMC eisoes yn casglu dyddiadau terfyn zSwyddfa Gartref y DU fel rhan o'i broses gwirio cymhwysra ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr Addysg Uwch.

Bydd y ffurflen gais yn cynnwys dyddiadau terfyn mewnfudo'r Swyddfa Gartref ar gyfer rhai categorïau wrth wneud cais am gymorth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ffurflenni cais LCA a GDLIC (AB) a'r nodiadau cyfarwyddyd.

Mae CMC yn casglu dyddiadau terfyn y Swyddfa Gartref am ddibenion gweinyddol, i sicrhau bod myfyrwyr sy'n gymwys yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth gydol eu cyrsiau. Bydd hyn yn darparu dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws addysg uwch ac addysg bellach o ran cymorth i fyfyrwyr.

4. Dilysu hunaniaeth gan Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi (SBEM)

Rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion oedran a hunaniaeth i fod yn gymwys i gael cymorth. Fel rhan o'r broses ymgeisio ac asesu, mae'n ofynnol ar hyn o bryd i ymgeiswyr anfon eu pasbort gwreiddiol i CMC i'w wirio.

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar hyn o bryd yn gwirio ymgeiswyr AU drwy ei gyswllt dilysu â SBEM. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19, bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn defnyddio eu cyswllt dilysu â SBEM i wirio ymgeiswyr AB, sy'n ddeiliaid pasbort dilys gan y Deyrnas Unedig. Caiff ymgeiswyr AB newydd ddarparu rhif dilys eu pasbort yn eu ffurflenni cais am LCA neu GDLIC (AB) a bydd CMC yn gwirio'u manylion gyda SBEM. Mae'r broses wirio yn cadarnhau hunaniaeth myfyriwr.

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 04/2018)

Diben y newid hwn yw darparu proses well ar gyfer ymgeisio a lleihau faint o dystiolaeth y mae angen ei darparu ar bapur gyda chais. Bydd CMC yn derbyn tystiolaeth arall os nad yw myfyriwr yn ddeiliad pasbort dilys gan y Deyrnas Unedig. Mae gwybodaeth hefyd ar gael yn nodiadau cyfarwyddyd yr LCA a'r GDLIC (AB).

5. Dewis y Gymraeg

Bydd CMC yn casglu dewis iaith myfyrwyr newydd o ffurflenni cais LCA a GDLIC (AB). Mae'r dewis iaith wedi cael ei ychwanegu at ffurflenni templed cytundeb dysgu gorfodol LCA a GDLIC (AB). Ateb dros dro yw hwn yn unig ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd, hyd nes y bydd CMC yn gallu casglu manylion am y dewis iaith o ffurflen gais gyntaf myfyrwyr.

Dylai canolfannau dysgu gasglu dewis iaith myfyrwyr sy'n dychwelyd o Borth Canolfan Ddysgu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghanllawiau'r Defnyddwyr ar gyfer Canolfan Ddysgu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywyr.